

Diweddariad am Amddiffynfa rhag Llifogydd Caerleon Road

Er mwyn lliniaru llifogydd ar adegau pan fo'r llanw'n uchel iawn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi trefnu gosod rhwystr amddiffyn rhag llifogydd dros dro ar draws Caerleon Road yn ystod yr ychydig oriau y ddwy ochr i'r penllanw. Pan fydd y rhwystr hwn ar waith, bydd ffyrdd ar gau a gwyradau traffig yn eu lle.

Cyfathrebu am gau ffyrdd

Bydd CNC yn cyfathrebu'r posibilrwydd o gau ffyrdd trwy'r wybodaeth rhybuddion llifogydd ar wefan rhybuddion llifogydd CNC:

<https://naturalresources.wales/flooding/check-flood-warnings/?lang=cy>

Bydd y rhybuddion llifogydd yn rhoi gwybod i bobl am y posibilrwydd y bydd Caerleon Road ar gau. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu rhoi 6 i 8 awr cyn y penllanw, gyda'r rhybuddion llifogydd yn cadarnhau nifer y ffyrdd sy'n debygol o gael eu cau o fewn 2 i 3 awr i'r penllanw.

Bydd CNC yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i roi cymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl fel y gellir gosod y gwaith o reoli traffig, cau ffyrdd a gosod yr arwyddion dargyfeirio i ddarparu llwybrau amgen i ddefnyddwyr ffyrdd yn ystod digwyddiad y penllanw. Bydd ffyrdd yn ailagor cyn gynted â phosibl ar ôl tynnu'r rhwystr ger pont yr afon.

Bydd gwybodaeth am gau'r ffyrdd yn cael ei harddangos ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd cyn rhoi'r amddiffynfeydd rhag llifogydd ar waith.

Amddiffynfeydd rhag Llifogydd

Mae'r amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n rhychwantu Caerleon Road yn cael eu defnyddio pan fyddwn yn rhagweld lefel llanw o 8.0 metr neu'n uwch ar system fesur llanw Casnewydd. Mae angen codi'r amddiffynfeydd cyn i'r llanw ddechrau gorlifo i'r caeau ar y lan chwith ac fel arfer bydd y ffordd ar gau dros awr cyn lefel uchaf y dŵr ac yn parhau ar gau am awr wedi hynny. Bydd y ffordd ar gau i'r de o'r gyffordd rhwng Caerleon Road a New Road. Bydd yr amddiffynfeydd yn cael eu tynnu cyn gynted ag y bydd dŵr yn cilio ac nad yw bellach yn cyrraedd gwaelod yr amddiffynfeydd.

Llanw Uchel a Lefelau Afonydd

Mae'r lefelau canlynol yn amlygu'r amserau a'r dyddiadau mwyaf tebygol ar gyfer cau ffyrdd yn 2024. Byddai angen ymchwydd storm ychwanegol o ryw hanner metr ac i'r ymchwydd gyd-ddigwydd â chyfnod y penllanw er mwyn i'r holl ddyddiadau a amlygir fod yn berthnasol.

Rydym yn argymhell eich bod yn cadw'r daflen hon at ddibenion cyfeirio.

System fesur Casnewydd - Penllanwau Seryddol o Fwy na 7.0 Metr

Dyddiad	Amser (GMT)	Casnewydd (Gwent)
11/02/2024	08:09	7.14
11/02/2024	20:33	7
12/02/2024	08:53	7.37
12/02/2024	21:14	7.07
13/02/2024	09:34	7.31
13/02/2024	21:54	6.82
14/02/2024	10:14	6.89
10/03/2024	07:06	7
10/02/2024	19:30	6.99
11/03/2024	07:50	7.43
11/03/2024	20:12	7.28
12/03/2024	08:31	7.59
12/03/2024	20:51	7.3
13/03/2024	09:10	7.43
13/03/2024	21:27	6.99
14/03/2024	09:48	6.9
08/04/2024	06:41	6.99
08/04/2024	19:05	6.96
09/04/2024	07:25	7.3
09/04/2024	19:45	7.17
10/04/2024	08:05	7.35
10/04/2024	20:23	7.15
11/04/2024	08:44	7.13
11/04/2024	21:00	6.83
24/07/2024	21:27	6.8
20/08/2024	19:45	7.04
21/08/2024	08:08	6.89
21/08/2024	20:27	7.32
22/08/2024	08:48	7.04
22/08/2024	21:08	7.35
23/08/2024	09:28	6.91
23/08/2024	21:48	7.04
17/09/2024	18:38	6.97
18/09/2024	07:03	6.92
18/09/2024	19:23	7.42
19/09/2024	07:45	7.23

19/09/2024	20:04	7.6
20/09/2024	08:24	7.29
20/09/2024	20:44	7.5
21/09/2024	09:02	7.07
21/09/2024	21:23	7.05
16/10/2024	18:12	7
17/10/2024	06:36	6.93
17/10/2024	18:57	7.35
18/10/2024	07:18	7.18
18/10/2024	19:39	7.43
19/10/2024	07:57	7.2
19/10/2024	20:19	7.25
20/10/2024	08:36	6.96
16/11/2024	19:15	6.84

DS: GMT yw'r holl amserau hyn - nid ydynt yn caniatáu am BST.


Mae'r graddliwio oren yn dangos Rhybuddion Llifogydd sy'n debygol fel isafswm.

Mae ymchwyddiadau stormydd uchel yn gysylltiedig ag ardaloedd o wasgedd isel sy'n dod â thywydd gwael, fel arfer dros fisoedd y gaeaf. Prif achos ymchwydd storm yw gwyntoedd cryfion yn gwthio dŵr y môr tuag at yr arfordir, gan achosi iddo bentyrru yno. Mae cyfraniad llai hefyd o'r gwasgedd isel sydd yng nghanol y storm yn "tynnu" lefel y dŵr i fyny, tua 1 cm ar gyfer pob newid 1 milibar o ran gwasgedd.

Mae'r diagram isod yn dangos y gwahaniaeth y gall ymchwydd ei wneud i'r llanw:



Storm surge occurs near high tide



Storm surge occurs near low tide

Digwyddiadau Blaenorol

Yn y gorffennol cafwyd llawer o ymchwyddiadau llanw sylweddol nad oeddent yn digwydd ar yr un pryd â phenllanwau ac felly nad ydynt wedi achosi problemau sylweddol i ardal arfordirol De Cymru. Fodd bynnag, byddai unrhyw un o'r ymchwyddiadau isod ar ben llanw 7 metr yn debygol o achosi tarfu sylweddol a phroblemau ynglŷn â llifogydd.

Y 10 Ymchwydd Uchaf yn y 15 mlynedd diwethaf

<i>Dyddiad</i>	<i>Ymchwydd (m)</i>
1997/02/24 20:45	1.747
2006/12/03 05:15	1.545
1998/01/04 11:15	1.468
1995/02/16 19:45	1.463
2005/01/08 04:45	1.180
2004/10/20 23:30	1.176
1999/01/03 07:45	1.116
1997/02/19 18:00	1.086
1996/10/28 20:15	1.075
1997/12/25 15:30	1.074

Yn y Dyfodol

Gellir rhagweld amserau llanw ymlaen llaw, felly bydd y ddogfen hon yn cael ei darparu'n flynyddol gan amlygu'r amserau a'r dyddiadau mwyaf tebygol ar gyfer cau ffyrdd. Rydym yn argymhell eich bod yn cadw pob dogfen at ddibenion cyfeirio.

Rhagor o wybodaeth

Cyngor Dinas Casnewydd: civil.contingencies@newport.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru: Warning.Informing_South@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk